

# Wythnos Euskara Cymru

Bro Ddyfi, Mis Ionawr 2017

Roedd Wythnos Euskara Cymru ym Mro Ddyfi'n wythnos hir – yn un o unarddeg diwrnod yn hytrach na saith. Roedd yn wythnos llawn digwyddiadau, yn cynnwys dwy arddangosfa, chwe chyngerdd gyda'r nos, sioe ffilmiau, gwledd, gweithdy celf dau ddiwrnod, a nifer o weithgareddau mwy ymylol, cefnogol. Yn ei anterth, roedd dwy ar bymtheg o bobl gwlad y Basg yn byw gyda ni yn y dyffryn, a mwy na dau ddwsin o wirfoddolwyr yn cynorthwyo'r gwaith. Roedd yr ŵyl yn bartneriaeth rhwng y Cymdogion Celtaidd, Ysgol Bro Hyddgen, MoMa Machynlleth, Menter Maldwyn a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Roedd wedi tyfu o flynyddoedd o gydweithio rhwng artistiaid, cerddorion a phobl eraill ym Mro Ddyfi a Nafarroa, ac o'r ymdeimlad cryf bod cymaint yn gyffredin rhwng ein dwy gymuned bod posib i ni hyrwyddo ein heithoedd a'n diwyllinnau ein gilydd drwy ddysgu am ein gilydd, a thrwy edmygu a chefnogi ein gilydd.



*Alaw, Myfanwy a Cerys*

## Gan Alaw Jones

Iaith arbennig ydy iaith Euskara. Mae hi mor unigryw a lliwgar wrth wrando arni. Fel rydych yn gwybod yn barod, mae rhan fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 10 Ysgol Bro Hyddgen wedi cael y siawns i glywed yr iaith yma'n cael ei siarad wrth weld a gwneud gweithgareddau gwahanol.

Mae yna gysylltiad amlwg rhwng y ddwy iaith, Cymraeg ac Euskara. Maen nhw'n un o'r niferus ieithoedd lleiafrifol hynaf yn Ewrop sy'n dal yn cael ei siarad gan nifer angerddol o bobl i gymharu â gwledydd mwyaf y byd. Dwi'n siwr eich bod chi erioed wedi clywed yr iaith yma o'r blaen. A dwi ddim yn eich beio chi. Cyn i'r brosiect yma ddigwydd, doedd gen i ddim syniad bod yna wlad fach rhwng De Ffrainc a Gogledd Sbaen, ac yn bendant ddim yn gwybod bod ganddyn nhw iaith eu hun. Ond os rydych yn mynd i wlad rhwng Ffrainc a Sbaen, pa





iaith byddwch chi'n siarad? Ffrangeg neu Sbaeneg? Na, mae pobl Gwlad y Basg yn siarad Euskar!.

Un peth dwi'n cofio'n arbennig, ydy pan ddaeth ffrind i'r artist Juan Gorriti draw i'r ysgol a dechrau siarad Euskara, a doedd gennym ni fel dosbarth ddim clem beth roedd hi'n dweud. Roeddem ni i gyd yn gegrwth! Yr unig air roeddwn i wedi daeall oedd 'artist' ac wrth gwrs yr enw 'Gorriti'. Ond roedden ni'n lwcus iawn o gael posteri gan ddisgyblion Ysgol Bro Hyddgen o gwmpas yr ysgol yn cyfieithu'r iaith Gymraeg i Euskara. Felly rhai o'r eirfa dwi'n cofio ydy *“Sut wyt ti?” Zer moduz? “Hwyl fawr/welai chi eto” Gero arte. Ac yn olaf, “Diolch” Eskerrikasko.*

Trwy wneud y prosiect yma, rwyf wedi datblygu sgiliau newydd o bob math. Felly byswm yn hoffi diolch yn fawr am y cyfle i fod yn rhan o'r brosiect arbennig hwn ac i ddysgu tipyn o'r iaith sy'n hollol newydd i fi. Rwy'n siwr i weddill blwyddyn 10 Ysgol Bro Hyddgen hefyd. Mae'r wythnos wedi bod yn un wych ac yn mynd i fod yn un fythgofiadwy dwi'n siwr i nifer o bobl, bydd yn sicr i fi. Dw i wedi mwynhau cymaint, gobeithio bydd y math yma o beth yn digwydd ym Machynlleth eto yn fuan. Diolch i bawb sydd wedi rhoi'u amser i drefnu hyn i gyd ac i wneud yr wythnos yn bosib ac yn un arbennig iawn.

### Gan Myfanwy Fenwick

Yn ddiweddar cawsom yr anrhydedd o fynychu arddangosfa ysbrydoledig Juan Gorriti yn y Tabernacl ac yn wir roedd cael gweld gwaith artist cyfoes mor adnabyddus yn gyfle unigryw. Roedd pob darn o waith yn arddangos elfennau cryf o'i wreiddiau Basgaidd gan gynnwys y defnydd cyson o'r lliw glas cynnes sy'n adlewyrchu cariad Gorriti tuag at yr awyr uwch ei wlad. Ymhlith y cerfluniau disglair a'r portreadau difyr oedd fy hoff ddarn sef y Gambara. Ffrâm traddodiadol sy'n crogi o'r nenfwd mewn tai Basgaidd gan ddal ei eiddo yw'r Gambara. Yn yr achos hyn roedd Gorriti wedi hongian gwrthrychau celfyddydol di-ri oddi-ar y ffrâm mewn ffrwydrad o liwiau llachar gan gynnwys y glas roedd e mor angerddol am. Roedd ei waith yn creu naws mor arbennig



o'r eiliad roeddech yn myned

i'r ystafell gyda elfennau o blentyndod melys, hanes, traddodiad ac yn fwy na dim awyrgylch chwareus fyddai, heb os nag oni bai, yn apelio at blant.



Pan glywais y byddwn ni, disgyblion blwyddyn 10 Ysgol Bro Hyddgen yn cael y cyfle digymar o weithio ochr yn ochr a'r artist Cymreig Luned Rhys Parry i ail greu ein Gambara ein hunain roeddwn wedi gwirioni...roedd hyn yn gyfle euraidd i gael datblygu ein dealltwriaeth o gelf mewn diwyllianau arall. Ac

felly, ochr yn ochr â thua ugain o fy nghyd-ddisgyblion dyma ni'n gweithio'n ddiwyd ar draws dau ddiwrnod i gynhyrchu môr o wrthrychau amryliw ar gyfer ein Gambara ni ein hunain, gan wrth gwrs ymgorffori'r glas arbennig oedd mor bwysig i Gorriti yn ein gwaith.

Wrth edrych ar y fframwaith gorffenedig roedd yn amlwg fod ein ymdrechion wedi llwyddo ac yn fwy na hynny roedd pawb yn edrych mor falch o'u gwaith. Yn yr eiliad hynny daeth yn amlwg pa mor unigryw yw'r berthynas rhyngom ni y Cymry a'r Basgiaid, roedd yn anghredadwy sut roedd dwy wlad fach wedi llwyddo estyn llaw ac adeiladu pont o gyfeillgarwch ar hyd dros 1060 o filltiroedd ac roeddwn ni'n teimlo'n freintiedig o gael fod yn rhan ohono!



### Gan Cerys Hafana

I fi, un o'r pethau gorau am yr wythnos Fasgeg ym Machynlleth oedd derbyn dau floc enfawr o gaws gan y band Bitartean, oedd wedi benthyg ein gitar ac allweddell am yr wythnos. Digwyddodd hyn ar ddiwedd noson wych yn Nhal-y-Bont, lle cefais y siawns i chwarae cwpl o ganeuon ar y delyn deires cyn y band.

Roedd yr ystafell yn llawn, felly roedd rhaid i mi eistedd ar y llawr. Dwi'm yn meddwl bydd fy nghlustiau yr un fath byth eto,- ni cafodd 'albokas' eu

dylunio i ystafelloedd bach yn Nhal-y-Bont.

Yn fy marn i, un o'r pethau gorau am y band, heblaw am eu hegni gwych nhw, oedd y defnydd gwahanol o offerynnau, yn bennaf y tamborin trawiadol - rhywbeth dwi 'rioed' di dweud o'r blaen - a'r defnydd o biano mewn cerddoriaeth werin, oedd yn eithaf ysbrydoledig i fi.

Ac yna, ar ôl lot fawr o gwtshys Basgaid (tata, ysgwyd dwylo) cefais fagnet oergell siap dafad, wedi'i addurno â'r baner Fasgaid. "Mae ganddyn nhw lot fawr o ddefaid yng Ngwlad y Basg hefyd", esboniodd y ddynes roddodd hi i fi.

Ar y noson canlynol roeddwn yn chwarae yn y Tabernacl, eto ar y delyn deires, ond hefo Rhiain Bebb, fy athrawes, yn ogystal â Gwilym Bowen Rhys a'i fand, Osian Morris, a'r prif band, Bidaia, oedd yn cynnwys yr 'unig chwaraewr hyrddi gyrddi yng Ngwlad y Basg.' Roedd y noson yn lot fawr o hwyl (heblaw, efallai, pan roedd rhaid i mi rhannu telyn hefo Rhiain, ar fy mhengliniau), a chlywais hyrddi gyrddi yn fyw am y tro cyntaf erioed...



